Cyngor Cymdeithas Cynwyd

Cofnodion o gyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd Nos Fawrth, 4ydd o Hydref 2016, yn y Neuadd Bentref am 7.30 yr hwyr.

Presennol

Ifan Williams, Gwen Wynne, Emrys Bodden, Nan Jones, Ann Owen, Cefyn Williams

Ymddiheuriadau

John Evans, Aelwyn Guest, Llion Jones

Cyn ymdrin a materion y Cyngor, dymunwyd gwellhad buan i'r trigolion sy'n dioddef o anhwylder iechyd. Mae nifer yn y cylch yn cwyno. Cydymdeimlwyd a'r rhai sydd yn galaru.

Digwyddiadau'r pentref

- Llongyfarchiadau i Iwan Williams, Godre'r Coed ar ei lwyddiant yn y cystadleuaeth 'Iron Man Wales'
- Hambyrddau bara wedi cael eu symud o du allan i'r Swyddfa Bost. Mae'n edrych fel lladrad. Gobeithio byddant yn cael eu dychwelyd cyn gynted a phosibl.

Cofnodion y Cyngor

Darllenwyd y Cofnodion o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar y 6 Medi 2016, a chafwyd yn gywir, gyda dim materion yn codi o'r cofnodion. Hefyd, derbyniwyd agendas Sir Ddinbych.

Materion Ariannol

Dim materion ariannol ar hyn o bryd.

Cynllunio

Dim cynllunio ar hyn o bryd.

Gwybodaeth ac UFA

- Cyflwr y ffyrdd yn yr ardal – Cefyn Williams yn dal i siarad a'r Cyngor Sir.
- Cais Mr Barry Ellis i rhentio tir yn agos i'w gartref – y clerc i ddal i ymofyn a chwilio.
- Golueuni llachar - gofyn i'r cwmni insiwrans (AON) am amcan gyfrif.
- Baw cwn yng nghae'r ysgol - gadael i'r cyhoedd wybod am y broblem.
- Y clerc wedi bod yn sgwrsio gyda'r archwiliwr newydd i osgoi y problemau oedd gyda'r hen archwiliwr.

Cyfarfod Nesaf: Dydd Mawrth, 1af o Dachwedd, 2016